# Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 81

### Key Language

i/at
cariad
expressions

### New Words

| | |
|---|---|
| Yffach! | Gosh! |
| Saff | safe |
| Ffaelu | to fail; to be unable (SW) |
| Breuddwyd | dream |
| Tawelach | quieter |
| Yn y byd i gyd | in the whole world |
| Cytuno | to agree |
| Bant | away (SW) |
| Ta beth | in any case (SW) |
| Penodol | specific |
| Brifo | to hurt |
| Teimladau | feelings |
| Gwahodd | to invite |
| Hanner dydd | midday; noon |
| ‘co fe! | There he is! (SW) |
| gwan | weak |
| fferru | to freeze |
| aradeg | slow |
| camddeall | to misunderstand |
| ymddwyn | to behave |
| oedolion | adults |
| dwlu | to dote |
| haeddu | to deserve |
| Ar fai | at fault |
| Gweiddi | to shout |
| Temptio | to tempt |
| Gwaethaf | worst |
| Cymhleth | complicated |
| Difrifol | serious |
| Llanast | mess |
| Hunllef | nightmare |
| Peiriant | machine |
| Celwyddau | lies |
| Dauwynebog | two-faced |
| Llonydd | peace and quiet |
| Dwyn | to steal |
| Piau | to own |

Jenny and Agnes were discussing Jac’s health following his collapse at the Yacht Club, they were greeted in the hospital by a rather unexpected face... Chris Roberts – Brian’s new employee.

*Chris - Rwyt ti’n mynd i ddweud ‘Na’ yn dwyt ti?*
*Jenny - Dweud ‘Na’ i beth? Dw i ddim wedi clywed y cwestiwn eto! Sut fedraf i ddweud ‘na’?*
*Chris - Rwyt ti’n mynd i ddweud ‘na’ ar ôl i mi ofyn i ti ddod mas gyda fi.*
*Jenny - Sori...Dyweda hynny eto...Rwyt ti wedi dod yma i ofyn i mi fynd allan hefo ti? Mynd allan ar ddêt, wyt ti’n ei feddwl?*
*Chris - Wel... beth wyt ti’n ei ddweud? Wyt ti eisiau mynd mas am bryd o fwyd gyda fi?*

Chris really <u>has</u> taken a shine to Jenny, but does she feel the same? Keep listening to hear whether or not she'll give in to his charms.

There's no doubt at all as to how Jac and Agnes feel about each other any more. They're on cloud nine and have decided to take a very important step together.

*Jac - Agnes. Ga' i ddod i fyw atat ti? Plis?*
*Agnes - Cei...Gei di ddod ataf i...Wrth gwrs gei di ddod ataf i! Wnaf fi edrych ar dy ôl di... Hei – rwyt ti'n dweud wrthyf i am beidio â llefain...Edrycha arnat ti...Y dagrau mawr yma...*
*Jac - Rwyt ti wedi fy ngwneud i mor hapus...*

---

## Main Grammatical Points

The prepositions 'i' and 'at' in Welsh can <u>both</u> be translated as the English word 'to' . But how do you know when to use 'i' and when to use 'at'. Well, the general rule of thumb is that you use the word 'i' when referring to a place and you use the word 'at' when referring to a person. To make it clearer, let's look at some examples:

Dw i'n mynd i Lundain
I'm going to London (a place of course)

Mae e wedi mynd <u>i</u>'r ysbyty
He's gone to hospital – i'r ysbyty

Dylet ti fynd <u>at</u> y doctor
You should go to the doctor – at y doctor

---

Chris tells Jenny that Brian has gone to see Wendy Keating, who's staying with her sickly mother in the Rhondda. He refers to Wendy as Brian's 'cariad' – girlfriend, but in actual fact, the word 'cariad' just means 'love', so it can be used to mean girlfriend or boyfriend.

In some parts of South Wales, people like to distinguish between girlfriend and boyfriend, as it can be a little bit confusing at times just to have the one word! They say 'wejen' for girlfriend and 'sboner' for boyfriend. The word 'sboner' comes from the English word 'spooner' dating back to the times when men used to give their girlfriends love spoons. Nice to see an old tradition is carried on in this modern day word...

---

There are a number of different expressions, so remember to look out for them.

| | |
|---|---|
| Dim fiars o beryg | No way (from the English 'no fears'!) |
| Ar bigau'r drain | to be on tenterhooks (literally 'on the point of thorns') |
| Gadael y gath o'r cwd | to let the cat out of the bag |
| Haws dweud na gwneud | easier said than done |

Expressions never fail to impress, so try and incorporate them wherever you can!

---

## Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 241

Chris apologises to Jenny for going to the hospital and asking her out, but she ends up making a proposal to <u>him</u>!

Jac has recovered from his ulcer and finally comes out of hospital. But will he be going home to his bachelor pad with Brian and Arwyn, or will Agnes keep her promise and let him move in with her?

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Yffach! | Gosh! |
| Saff | safe |
| Ffaelu | to fail; to be unable (SW) |
| Breuddwyd | dream |
| Tawelach | quieter |
| Yn y byd i gyd | in the whole world |
| Cytuno | to agree |
| Bant | away (SW) |
| Ta beth | in any case (SW) |
| Penodol | specific |
| Brifo | to hurt |
| Teimladau | feelings |
| Gwahodd | to invite |

**Golygfa 1**

Jac - Mae'n braf bod allan o'r ysbyty yna o'r diwedd.
Agnes - Yffach Jac! Rwyt ti'n drwm!
Jac - Hei, paid â lladd dy hun. Gad i fi drio...
Agnes - Na, na. Gad i ni drio gyda'n gilydd. Bydd hi'n haws os ydyn ni'n dau yn trio. Dyna ni. Ti mewn yn saff nawr.
Jac - Hassle...
Agnes - Ody. Hassle. Ti'n iawn?
Jac - A rwan fy mod i'n byw yma yn dy dŷ di, bydd o'n hassle bob dydd i ti...
Agnes - Paid â bod yn wirion. Beth am gael ramp? Yn gymwys fel wnest ti adeiladu yn dy dŷ di. Dyna'r ateb. Wyt ti moyn disglaid?
Jac - Ydw. Grêt. Mae'n braf bod yma o'r diwedd.
Agnes - …Rwyt ti'n iawn. Mae hi'n braf bod nôl. Mae'n braf bod yn ôl... a ti gyda fi.
Jac - Wnes i erioed feddwl bod hyn yn mynd i ddigwydd.
Agnes - Beth?
Jac - Wnes i erioed feddwl bod hyn yn mynd i ddigwydd...
Agnes - Sori? Dw i'n ffaelu clywed gair.
Jac - Wnes i erioed feddwl bod hyn yn mynd i ddigwydd, meddaf fi.
Agnes - Ti a fi yn byw fan hyn gyda'n gilydd?
Jac - Ie. Mae o fel breuddwyd. Breuddwyd sydd wedi dod yn wir.
Agnes - O'r diwedd.
Jac - Ie. O'r diwedd...
So, pryd fydd y plant yn ôl o'r ysgol?
Agnes - Mewn 'bytu hanner awr.
Jac - Wyt ti wedi dweud wrthyn nhw? Wyt ti wedi dweud wrthyn nhw fy mod i wedi symud i mewn?
Agnes - Do. Neithiwr.
Jac - ...A?
Agnes - Wnaeth Rhodri ofyn fwy o gwestiynau na Beca. Ond mae hynny'n naturiol.
Jac - A Beca? Beth wnaeth hi ofyn amdanaf fi?
Agnes - Ddim lot. Oedd hi'n dawelach. Ond dyna ei natur hi.
Jac - Ah-huh.
Agnes - Am beth ti'n meddwl?
Jac - Ti.

Agnes - Ar wahân i fi?
Jac - Ddim lot.
Agnes - Dw i'n dy garu di, Jac.
Jac - Dw i'n dy garu di hefyd. Yn fwy na neb yn y byd i gyd.
Agnes - Beth wnest ti ddweud wrth Arwyn?
Jac - Y gwir. Dweud fy mod i'n dod i fyw atat ti. A beth wnest ti ddweud wrth Brian?
Agnes - Dweud fy mod i moyn ei weld e 'fory.
Jac - Ac ydy o wedi cytuno?
Agnes - Mae e am alw draw yma am hanner dydd fory.
Jac - Paid â phoeni. Byddaf i yma hefyd. Ie? Wnawn ni'n dau siarad hefo fo.

**Golygfa 2**

Chris - Jenny. Hi!
Jenny - Chris...Sut wyt ti?
Chris - O.K. A ti? Sut wyt ti ynte?
Jenny - O.K. Dw i'n O.K...Ydy Brian yma?
Chris - Nag yw. Mae fe wedi mynd bant. I'r Rhondda dw i'n credu.
Jenny - At Wendy a Victoria, siwr o fod.
Chris - Aye. Dyna ti. At Wendy. Ei gariad e. Ond bydd e nôl 'fory. Dyna beth ddywedodd e wrthyf fi, ta beth...
Jenny - Ga' i dalu am y petrol plis?
Chris - Pwmp un?
Jenny - Dyna ti. Pwmp un...
Chris - Wnest ti byth roi ateb i fi, rwyt ti'n gwybod.
Jenny - Naddo... dw i'n gwybod...
Chris - Ac wyt ti'n gwybod beth sy'n annoying? Oeddwn i'n gwybod – I knew you'd say 'No.'
Jenny - Wnes i ddim dweud hynny, yn naddo? Wnes i ddim dweud 'Na'. Ddim yn benodol. Rho amser i mi feddwl. Dyna beth wnes i ddweud.
Chris - Same thing. Sorry. It's like I'm harassing you. Ond 'na.' Dyna beth oedd dy ateb di. Or that's how it sounded to me, anyway...
Jenny - Doeddwn i ddim yn trio brifo dy deimladau di.
Chris - Nag oeddet?
Jenny - Nag oeddwn.
Chris - Yeah, well....I shouldn't have done what I did last week. I shouldn't have gone to the hospital. I shouldn't have asked you out. It wasn't on...
Jenny - Roedd gennyt ti berffaith hawl i fy ngwahodd i allan, ond...
Chris - Let's drop it – yeah?
Jenny - Beth oeddet ti wedi meddwl ei wneud?
Chris - You asking me out now?
Jenny - Dw i'n brysur yr wythnos yma. Dw i'n gweithio 'shifts' nos. Ond... beth am wythnos nesaf?
Chris - Really?
Jenny - Os wyt ti eisiau...
Chris **-** Oh my God - brilliant! This is too good to be true!

## Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 242

Agnes is all of a dither at the prospect of having to tell Brian about her relationship with Jac. Will finding out about their relationship come as surprise to him, or does he have an inkling already?

### Geirfa

| | |
|---|---|
| Hanner dydd | midday; noon |
| 'co fe! | There he is! (SW) |
| gwan | weak |
| fferru | to freeze |
| aradeg | slow |
| camddeall | to misunderstand |
| ymddwyn | to behave |
| oedolion | adults |
| dwlu | to dote |
| haeddu | to deserve |

### Golygfa 1

Agnes - Mae e'n hwyr...
Jac - Beth yn union wnest ti ddweud wrth Brian?
Agnes - Hanner dydd. "Dere i'r tŷ am hanner dydd ar ddydd Mercher". A dyna fe. Dyna'r cwbl. Ddywedais i ddim byd arall. Dw i ar bigau'r drain ers codi bore yma. Wnes i ddim cysgu'n dda iawn neithiwr...
Jac - Agnes, relax! Mae hi'n bum munud wedi deuddeg – dyna'r cwbl, right? Eistedda i lawr am funud.
Agnes - Na, dw i'n ffaelu. Dw i'n rhy nerfus.
Jac - Ar bigau'r drain, eh?
Agnes - Ie, ar bigau'r drain. Nerfus. On tenterhooks. Dw i ar bigau'r drain. Dwyt ti ddim?
Jac - Na. Na, dw i ddim ar bigau'r drain o gwbl.
Agnes - Wyt ti'n meddwl efallai bod Arwyn wedi dweud wrtho fe erbyn hyn. Wedi gadael y gath o'r cwd...
Jac - Dwn i'm. Ond os ydy Brian <u>yn</u> gwbod yn barod, mae hynny'n gwneud pethau lot yn haws i ni'n dau.
Agnes - 'Co fe! Mae fe wedi cyrraedd! Mae Brian yma!
Jac - Wel, agor y drws iddo fo...
Agnes - O, yffach! Mae fy nghoesau i'n wan...
Jac - Agnes...Bydd popeth yn iawn. Jest agor y drws i Brian...
Brian - Brrrrr. Wel, o'r diwedd! Mae'n oer allan yma wyt ti'n gwybod.
Agnes - Sori, dere mewn Brian...
Brian - Mae fy nwylo fi'n fferru. Mae fy...
Jac - Brian.
Brian - Jac! Beth wyt ti'n ei wneud yma?
Jac - Sut aeth hi yn y Rhondda?
Brian - Iawn.
Jac - Ah-huh. Sut oedd Wendy?
Brian - O.K.
Jac - A Vicky?
Brian - Roedd Vicky yn O.K. hefyd. Doeddwn i ddim <u>wir</u> eisiau mynd. Ond rwyt ti'n gwybod fel mae Wendy...Dydy hi ddim yn deall y gair 'na'. So, dyna ni. Dyna pam es i i'r Rhondda.
Jac - Sut mae mam Wendy erbyn hyn? Ydy hi'n well?
Brian - Ydy, mae hi'n gwella. Ond yn aradeg...
Agnes - Fydd Wendy ddim yn ôl ym Mrynaber am dipyn ynte?
Brian - Na fydd, fydd hi ddim yn ôl am ychydig o wythnosau eto...Agnes? Ga' i ofyn...? Pam yn union wyt ti wedi gofyn i mi ddod yma?
Agnes - Mae gyda ni rywbeth i ddweud wrthyt ti.
Brian - Ni?

Jac - Ie.  Ni.
Brian - Sori...Ond...Yyyy...Ydw i wedi camddeall?
Jac - Nag wyt.  Dwyt ti ddim wedi camddeall. Rwyt ti wedi deall yn iawn. Mae gennyn ni, Agnes a fi, rywbeth i ddweud wrthyt ti.
Brian - Ydy hyn...yyy... ydy hyn yn beth ydw i yn ei feddwl ydy o?
Jac - Ydy, Brian.  Ydy, mae'n wir.
Agnes - Edrycha, Bri...Edrycha...Roedd e'n bwysig dy fod ti'n...Na, roedd e'n bwysig i Jac a fi dy fod ti'n clywed... gennyn ni...a gan neb arall.  Roedden ni am ddweud wrthyt ti wythnosau yn ôl, ond ...wel...haws dweud na gwneud...
Brian - Wythnosau yn ôl?  Beth mae hynny i fod i feddwl?... Pryd?  Ers pryd ydych chi wedi bod yn mynd hefo'ch gilydd?
Agnes - Smo fe'n bwysig Brian.  Beth sy'n bwysig nawr yw –
Brian - Ers pryd?
Jac - Misoedd.
Brian - Misoedd?
Agnes - Brian – rydyn ni'n oedolion.  Mae'n rhaid i ni ymddwyn fel oedolion.
Brian - Misoedd?
Agnes - Smo fe'n hawdd i ti, rydyn ni'n gwybod...Ond rydyn ni'n caru ein gilydd...Rydyn ni'n caru'n gilydd!  Ac rwyt ti'n hapus gyda Wendy...Ac yn dwlu ar Vicky...Mae teulu dy hun gyda ti nawr...Rwyt ti'n hapus, Brian...Ac wyt ti'n gwybod beth? Dw i'n haeddu hapusrwydd hefyd.
Brian - Misoedd, ie?  O dan fy nhrwyn i.  Tu ôl i fy nghefn i?  Rydych chi wedi bod yn cael 'affair'!
Jac - Do.
Brian - A dw i wedi bod yn byw yn yr un tŷ â chdi, Jac!  Yn dy helpu di!  A dyma sut wyt ti'n fy nhalu fi yn ôl!
Agnes - Brian!
Brian - Rwyt ti'n talu yn ôl i mi trwy fynd â fy ngwraig i i'r gwely!  Dyma sut wyt ti'n talu nôl?  Dy ffrind di?  Dy ffrind gorau di?
Jac - Mae Agnes a fi yn caru'n gilydd.
Brian - Na, dydy Agnes ddim yn dy garu di, Jac Whelan.  Fi mae hi'n ei garu.  A fi mae hi wedi ei garu erioed.  A fi bydd hi'n ei garu am byth!
Agnes - Brian, plis –
Brian - Dwyt ti ddim yn mynd i gael 'get-away' efo hwn Jac Whelan.  Symud i mewn i fy nhŷ fi?  Mynd â fy ngwraig i?  'No way' Jac!  Dim fiars o beryg!

## Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 243

Brian becomes very possessive of Agnes and is aggressive towards Jac. He feels he's been made a complete fool of and realises that his life's a complete mess. His wife and his best friend have been having an affair for months and he still hasn't sorted things out properly with Wendy.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Ar fai | at fault |
| Gweiddi | to shout |
| Temptio | to tempt |
| Gwaethaf | worst |
| Cymhleth | complicated |
| Difrifol | serious |
| Llanast | mess |
| Hunllef | nightmare |
| Peiriant | machine |
| Celwyddau | lies |
| Dauwynebog | two-faced |
| Llonydd | peace and quiet |
| Dwyn | to steal |
| Piau | to own |

**Golygfa 1**

Chris - Bore da, Brian... Or maybe not so 'da' then from the look on that face.
Brian - Jest, cau dy geg, wnei di?
Chris - Got up on the wrong side of the gwely this morning did we?
Brian - Jest <u>cau</u> dy geg!
Chris - Sori. I'll just keep my big gob shut and get on with my work. Ignore me, I'm just a prat...
Brian - Mae'n ddrwg gen i. Dw i ar fai yn gweiddi arnat ti. Dwyt ti ddim ar fai. Sori...sori.
Chris - Just punch me hard and you might feel better.
Brian - Paid...paid â fy nhemptio i! Dw i wedi cael 'kick'...'Kick' waethaf fy mywyd. Brad, wyt ti'n gwybod...
Chris - Brad... as in betrayal?
Brian - Ie. Brad.
Chris - Who's betrayed you then?
Brian - Y bradwr mwyaf...Fy mêt gorau fi.
Chris - Bloody hell! Arwyn? Beth mae fe wedi ei wneud?
Brian - Ddim Arwyn, y ffŵl! Dydy Arwyn ddim wedi gwneud dim byd i fi!
Chris - Jac ynte?
Brian - Ie! Jac Whelan!
Chris - Beth mae fe wedi ei wneud?
Brian - Beth wyt ti'n ei feddwl? Beth ydy'r peth gwaethaf fedar unrhyw un ei wneud i chdi?
Chris - Drained your bank account dry?
Brian - Tyfa i fyny, wnei di?
Chris - Oh...oh!
Brian - Fo o bawb! Jac! Tu ôl i fy nghefn i! Ac ers misoedd hefyd! <u>Misoedd</u>! Fedri di gredu'r peth? Fo ac Agnes. Jac ac Agnes hefo'i gilydd. A doedd gen i ddim syniad! Dim syniad o gwbl! Oeddach chdi'n gwybod rhywbeth...?
Chris - Beth? Fod Jac yn – getting up close and personal with your ex?
Brian - Dydy Agnes ddim yn ex i mi! Reit?! Mae hi'n dal yn wraig i mi!
Chris - Ond, sa i'n deall...Beth am Wendy? Dwyt ti a hi ddim yn eitem?
Brian - Wel, ydyn a nac ydyn...
Chris - Complicated stuff, man.
Brian - Ydy, mae o... cymhleth iawn. Cymhleth a difrifol – y peth gwaethaf sydd wedi digwydd i mi erioed.
Chris - Aye. Allaf i weld hynny...
Brian - Wyt ti'n gwybod beth...?

Chris - Beth?
Brian - Mae fy mywyd i'n llanast...Wyt ti'n gwybod beth mae llanast yn ei feddwl?
Chris - I think I can guess...
Brian - Llanast... a bloody mess.
Chris - Gair da. Llanast. A mess. Not so good that your life's such a mess though is it? Rhaid i fi gofio hwnnw - llanast.
Brian - Dw i ddim yn gorfod ei gofio fo...Ac wyt ti'n gwybod pam?
Chris - Pam?
Brian - Dw i'n ei fyw o! Dw i'n byw hunllef.

**Golygfa 2**

Jac - Rwyt ti'n dawel iawn.
Agnes - Rwyt ti hefyd.
Jac - Ydw i?
Agnes - Wyt. Rwyt ti'n gwybod dy fod ti...
Jac - Gad hi...Paid ag ateb.
Agnes - Smo'r peiriant ateb ymlaen. Bydd y ffôn jest yn canu a chanu...
Jac - Just pull the cable out then.
Agnes - Dw i'n ffaelu. Efallai bod rhywun o'r ysbyty yn trio fy ffonio fi. Sori. Mae'n rhaid i mi ateb y ffôn yna...
Jac - Na, na. Aros lle rwyt ti. I'll get it.
Brian - Agnes?
Jac - Na, Brian. Fi sydd yma.
Brian - Dw i ddim isio siarad hefo chdi.
Jac - Does gen ti ddim llawer o ddewis. Dydy Agnes ddim yma.
Brian - Ydy, mae hi. Dw i'n gwybod ei bod hi yna. Galwa hi! Galwa Agnes at y ffôn, wnei di? Rwan!
Jac - Gwranda mate - os wyt ti'n mynd i weiddi dw i'n mynd i roi'r ffôn i lawr – wyt ti'n deall?
Brian - Dw i'n gwybod bod Agnes yna – paid â dweud celwyddau! Dw i wedi ffonio'r ysbyty. Maen nhw dweud ei bod hi adref heddiw...Felly, dyweda wrthi hi am ddod at y ffôn.
Jac - Rwyt ti'n dal i weiddi Brian...
Brian - Gad i mi siarad hefo Agnes! Dw i eisiau siarad efo fy ngwraig i!
Jac - Brian, plis paid â'i haslo hi bob munud...
Brian - Paid ti â dweud wrthyf i beth i'w wneud! Y diawl dauwynebog! Os wyt ti'n meddwl cei di lonydd gen i boi – well i chdi feddwl eto! A well i chdi feddwl yn hir iawn hefyd! Achos dw i byth byth yn mynd i adael i chdi ddwyn Agnes – wyt ti'n clywed? Fi biau Agnes - wyt ti'n clywed? Wyt ti?

## Synopsis

Jac's made a full recovery from his peptic ulcer and is ready to return home. But home is no longer the bachelor pad he shared with Brian and Arwyn - home is now Agnes's house.

## Test yourself

1. "Dw i'n mynd i aros ____ fy chwaer" – fill in the correct preposition to explain that you're going to stay at your sister's house.

   **a) at**
   b) i
   c) gan

2. The expression "ar bigau'r drain" means:

   **a) on tenterhooks**
   b) to let the cat out of the bag
   c) no way!

3. What is the Welsh word for a "dream"?

   a) hunllef
   b) teimlad
   **c) breuddwyd**

4. "Cariad" has a lot of meanings in Welsh. Which of the following is <u>not</u> a translation of the word?

   a) girlfriend
   **b) husband**
   c) darling

5. Which word does <u>not</u> mean "to freeze"?

   a) rhewi
   **b) oeri**
   c) fferru

6. How do you say "weeks ago" in Welsh?

   **a) wythnosau yn ôl**
   b) ymhen wythnosau
   c) wythnosau yn gynt